Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

23.04.26

GWISG YSGOL
SCHOOL UNIFORM

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Ymfalchiwn yn ein safonau yn gyffredinol ar draws yr ysgol a gwerthfawrogir eich cefnogaeth i sicrhau bod y safonau hyn yn parhau - boed nhw'n safonau o ymddygiad da, balchder yn yr iaith Gymraeg, safonau cyrhaeddiad neu safonau ynghylch ein gwisg ysgol.

Gyda'r gobaith o dywydd braf yn ystod Tymor yr Haf, hoffem fanteisio ar y cyfle i atgoffa pawb am y wisg ysgol. Cewch ddod o hyd i wybodaeth am y wisg ysgol ar y dudalen hon ar wefan yr ysgol.

Hoffem atgoffa pawb y dylai siorts fod yn blaen o ran steil a lliw (llwyd / du) ac o hyd addas i'r penglin. Nid yw'r siorts byr athletau yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd yn rhan o'r wisg ysgol. Hefyd, gofynnir yn garedig i'r plant wisgo esgidiau ysgol lliw tywyll yn hytrach nag esgidiau ymarfer corff lliwgar, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, ni chaniateir i'r plant wisgo 'Crocs' i'r ysgol.

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth i sicrhau bod y safonau uchel hyn yn parhau.

Dear Parents / Carers,

We are very proud of our standards in general across the school and your support is appreciated to ensure that these standards continue - whether they are standards of good behaviour, pride in the Welsh language, standards of achievement or standards regarding our school uniform.

With the hope of nice weather during the Summer Term, we should like to take the opportunity to remind everyone about the school uniform. You can find information about the school uniform on this page on the school's website.

We would like to remind everyone that shorts should be plain in terms of style and colour (grey / black) and of a suitable length to the knee. The athletic shorts that we currently see are not part of the school uniform. In addition, the children are kindly asked to wear dark coloured school shoes rather than colourful sports shoes, please. Similarly, 'Crocs' are not appropriate footwear for school.

Your support to ensure that these high standards continue is much appreciated.